



Swyddfa'r Cyngor • 5 Stryd Fawr • Blaenau Ffestiniog • Gwynedd • LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ☓ cyngortrefffestiniog@yahoo.co.uk

COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 13^{eg} o HYDREF 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Annwen Daniels

YN BRESENNOL: Cyngorwyr: Bedwyr Gwilym, Erwyn Jones, Mel Goch ap Meirion,
Kevin Baldwin, Will G Roberts,
Mandy Williams-Davies, Mari Rees a Gareth W Jones

9694/10/16 YMDDIHEURIADAU:
Cyngorwyr: Rory Francis, Ronwen D Roberts a Gareth Roberts

9695/10/16 DATGAN DIDDORDEB
NI fu i unrhyw Gyngorydd Datgan Diddordeb

9696/10/16 WARD DIFFWYS A MAENOFFEREN
Yn anffodus ni fu'n bosib i Mr Gareth Roberts gael ei sefydlu fel aelod newydd ar gyfer ward Diffwys a Maenofferen oherwydd ymrwmiadau gwaith.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9697/10/16 MATERION BRYD
Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Mi fydd Patricia Alejandra Lorenzo Harris yn Ffestiniog yng nghwmni ei ffrind Marisa Conde, yn aros yn Nhanygrisiau gyda'r Cyngorydd Rory Francis dechrau Tachwedd. Hanesydd lleol yw Patricia Alejandra, a wnaeth lawer o ymchwil am wreiddiau Cymreig Tref Rawson, prifddinas Talaith Chubut yn yr Ariannin, a arweiniodd at y trefeillio rhwng y dref honno a Ffestiniog. Mae Patricia a Marisa yn awyddus i gwrdd efo cymaint o bobl leol â phosibl, gan fynychu digwyddiadau lleol ac yn dod â chyfarchion o ddisgynyddion y Cymry a ymfudodd i Batagonia yn yr oes a fu. Hoffech chi wahodd y ddwy ohonynt i ryw ddigwyddiad, fynd â nhw ar daith gerdded neu daith car, neu jest cwrdd efo nhw'n gwbl anffurfiol am 'baned? Dyma gyfle i chi estyn gwahoddiad iddyn nhw.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a thrafod sut mae'r Cyngor Tref am eu croesawu yng nghyfarfod Mwynderau nos Iau 20^{fed} o Hydref 2016.

Bu i'r Cadeirydd ddarllen copi o lythyr derbyniwyd gan Ms Liz Saville Roberts A.S. oddiwrth Banc yr HSBC ynglŷn â gosod peiriant arian, dyfodol yr adeilad a'r symud ymlaen sydd wedi ei wneud mewn trafodaethau gyda'r Swyddfa Bost ynglŷn â chyfrifon busnes.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a chytuno bod angen pwysleisio ar Fanc yr HSBC fod angen peiriant arian tu allan yn gynt nac yn hwyrach.

Bu i'r Cyngor dderbyn cais gan y Dref Werdd ar ran Pwyllgor Rhandiroedd Bro Ffestiniog am lythyr o gefnogaeth i'w cais i gronfa CIST am arian tuag at sefydlu gardd fywyd gwyllt cymunedol.

PENDERFYNIAD: I ganiatáu gyrru llythyr o gefnogaeth.

Bu i'r Cyngor dderbyn y dogfennau cyfreithiol i'w harwyddo ar gyfer prynu rhydd daliad y Parc, Y Sgwâr, Blaenau Ffestiniog oddiwrth ein cyfreithiwr.

PENDERFYNIAD: Arwyddwyd y dogfennau gan y Cadeirydd a Chlerc y Dref gyda'r Cyngorydd Mari Rees yn dyst i'w llofnodion.

9698/10/16 MATERION YR HEDDLU

Nid oedd aelod o'r heddlu yn bresennol yn y cyfarfod a ni chodwyd unrhyw fater i roi i'w sylw. Cafwyd gwybodaeth bod cais wedi ei wneud i'r heddlu am arian tuag at y gost o osod camerâu ccc ar Siop y Gloddfa.

Cafwyd gwybodaeth hefyd bod digwyddiad wedi bod yn y Parc gyda rhai wedi gwisgo fel clown ac wedi dychryn plant yn ddifrifol.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9699/10/16 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION
CYFARFOD ARFEROL 8^{fed} MEDI2016

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cyngorydd Erwyn Jones yn cynnig a'r Cyngorydd Mandy Williams-Davies yn eilio.

9700/10/16 CYFRIFON I'W TALU

Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	113.38	Rhif Siec.	002313
J P Farrington (Garddio)	£	620.00	Rhif Siec.	002314
Kevin Jones (Camera CCC)	£	800.00	Rhif Siec.	002315
SLCC (Local Council Administration)	£	73.60	Rhif Siec.	002316
Cyngor Gwynedd (Rhent tir)	£	1.00	Rhif Siec.	002317
A M Coxon (Costau teithio)	£	36.06	Rhif Siec.	002318
Cwmni Adwy (Yswiriant)	£	174.58	Rhif Siec.	002319
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	997.00	Rhif Siec.	002320
Grays Waste Management	£	380.00	Rhif Siec.	002321
Arian Parod	£	50.00	Rhif Siec.	002323
Viking Direct (Defnydd swyddfa)	£	259.56	Rhif Siec.	002327
Alwena Jones & Jones (Y Parc)	£	915.20	Rhif Siec.	002328
BT (Band eang)	£	33.61	Debyd Uniongyrchol	
BT (Ffon)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Cwmni Adwy (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	182.50	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

Yn anffodus nid oedd cworwm ar gyfer pwyllgor adnoddau felly bu i'r cynghorwyr oedd yn bresennol weithio fel Gweithgor.

Derbyn argymhellion Gweithgor Adnoddau Nos Fawrth 13^{eg} Medi 2016

ARGYMHELLION GWEITHGOR ADNODDAU
NOS FAWRTH 13^{eg} MEDI 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Rory Francis
Erwyn Jones
Mandy Williams-Davies

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Annwen Daniels
Ronwen D Roberts
Kevin Baldwin
Bedwyr Gwilym

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gyngorydd Datgan Diddordeb

Rheoliadau Ariannol (Cymru)

Bu i'r gweithgor drafod yn drylwyr y copi draft o'r Rheoliadau Ariannol (Cymru) gan gadarnhau'r mwyafrif o'r argymhellion a wnaethwyd a gwneud newidiadau fel a ganlyn -

- 5.1 Dileu'r geiriau [Bydd y cyngor yn gofyn am eirida credyd ar gyfer aelodau neu weithwyr sy'n gweithredu'n llofnodwyr] ac ychwanegu **Gofyn i'r banc wneud geirida credyd ar ein rhan.**
- 5.5(c) I newid y swm o £10,000 i £30,000 fel ei fod yn darllen -Trosglwyddo arian oddi fewn i drefniadau bancio'r cyngor i fyny at swm o **£30,000**, ar yr amod y cyflwynir rhestr o'r cyfryw daliadau i gyfarfod nesaf priodol y cyngor neu Bwyllgor Adnoddau.
- 6.17 Gan fod y Clerc hefyd yn SAC y Cyngor i'w newid fel ei fod yn darllen - Ni ellir ond gwneud newidiadau i fanylion cyfrifon ar gyfer cyflenwyr, a ddefnyddir ar gyfer bancio ar y rhyngwrwyd, trwy hysbysiad papur ysgrifenedig gan y cyflenwr gydag awdurdod papur ar gyfer y newid wedi'i lofnodi gan **ddau o'r Clerc ac unrhyw un o'r llofnodwyr swyddogol.** Dilyni'r rhaglen o archwiliadau rheolaidd o ddata sefydlog gyda chyflenwyr.
- 6.21 I ddileu'r paragraff yma.
- 6.22(a) I'w newid fel ei fod yn darllen - Bydd y SAC yn cadw cronfa arian mân o **£50** y mis ar gyfer talu treuliau gwaith ac o fathau eraill. Cedwir talebau ar gyfer taliadau a wnaed allan o arian mân er mwyn cadarnhau'r taliad.
- 11.1(e) I ddarllen - Pan fwriedir gwneud contract gwerth **mwya** na **£5,000** ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc neu'r SAC yn trefnu cael 3 dyfynbris (disgrifiadau wedi'u prasio o'r hyn y bwriedir ei gyflenwi); pan mae eu gwerth yn **fwya** na **£5,000** bydd y Clerc neu'r SAC yn ceisio cael 3 amcan bris. Fel arall, bydd Rheoliad 10.3 uchod yn berthnasol.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Mandy Williams-Davies yn cynnig a'r Cynghorydd Kevin Baldwin yn eilio gyda'r newidiadau canlynol -

11.1(e) I ddarllen - Pan fwriedir gwneud contract gwerth **mwya** na **£25,000** ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc neu'r SAC yn trefnu tendrau (disgrifiadau wedi'u prisio o'r hyn y bwriedir ei gyflenwi); pan mae eu gwerth yn **fwya** na **£5,000 ond yn llai na £25,000** bydd y Clerc neu'r SAC yn ceisio cael 3 dyfynbris. Pan mae eu gwerth yn **llai na £5,000** bydd y Clerc neu'r SAC yn ceisio cael 1 amcan bris. Fel arall, bydd Rheoliad 10.3 uchod yn berthnasol.

9702/10/16 PWYLLGOR MWYNDERAU
Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau Nos Iau 15^{fed} Medi 2016

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 15^{fed} MEDI 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:

Annwen Daniels
Bedwyr Gwilym
Erwyn Jones
Mel Goch ap Meirion
Mandy Williams-Davies
Will G Roberts
John Evans – Cerddwr Llwybrau

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gyngorydd Datgan Diddordeb

1. Llwybrau Cyhoeddus

Roedd Mr John Evans y cerddwr llwybrau newydd yn bresennol yn y cyfarfod a diolchwyd iddo am ei adroddiadau prydlon ynglŷn â diffygion ar y llwybrau. Mae unrhyw sylwadau ganddo hyd yn hyn wedi eu gyrru ymlaen i'r contractwyr i wneud y gwaith. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Tref wedi cael caniatâd i wneud man waith fel clirio ffos neu goeden wedi malu gan Gyngor Gwynedd. Eglurwyd iddo fod y Cyngor angen adroddiad blynyddol ganddo erbyn diwedd mis Chwefror er mwyn gallu trafod yr adroddiad a gwneud argymhellion gwaith angenrheidiol i Gyngor Gwynedd.

Adroddwyd bod canllaw'r bont gyntaf ar y chwith i gefn Pwerdy Tanygrisiau wedi malu.

Argymell: I yrru templed ar gyfer yr adroddiad blynyddol i'r cerddwr llwybrau. I holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â phont ar lwybr 37. I ofyn i Gyngor Gwynedd drwsio'r canllaw yn Nhanygrisiau.

2. Toiledau Cyhoeddus

Yn dilyn cytuno i wneud cyfraniad o £4000 tuag at sicrhau bod y cyfleusterau cyhoeddus yn cael eu cad war agor yn y dref, cafwyd cais gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â bwriad y Cyngor Tref.

Argymell: Cael cytundeb gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn ag ymestyn yr oriau agor at o leiaf tan ar ôl y trêrn olaf yn enwedig yn ystod tymor yr haf. I ofyn am gael peiriant ar gyfer codi tal am ddefnyddio'r toiledau.

3. Goleuadau Nadolig

Cafwyd gwybodaeth bod angen rhai goleuadau Nadolig newydd at eleni. Teimlwyd fod y gost o'u gosod gan Gyngor Gwynedd braidd yn ddrud.

Argymhell: I holi am brisiau ychwanegol ar gyfer gosod y goleuadau ac i wneud ymholiadau ynglŷn â phrynu rhywfaint o oleuadau newydd at eleni. Er nad oes digon o arian wedi ei neilltuo yn y braesept ar gyfer y nifer o oleuadau sydd angen fe all y Cyngor dynnu ar y gronfa wrth gefn. Tri chynghorydd i gwrdd â chynrychiolydd y Cwmni sydd wedi darparu'r goleuadau presennol a cheisio cael cytundeb ar bryniant goleuadau newydd

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd W G Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Mandy Williams-Davies yn eilio.

Oherwydd yr angen i symud ymlaen rhoddwyd y Rheolau Sefydlog i un ochr i drafod yr eitem nesaf

9703/10/16 GOLEUADAU NADOLIG

Bu i'r Cynghorwyr Bedwyr Gwilym, Mandy Williams-Davies a Mel Goch ap Meirion gwrdd â Mr Chris Manka a Mr Paul O'Hanlon o Gwmni Blachere Illumination ddydd Gwener, 30 Medi 2016 am 11:00 yb yn Siambr y Cyngor i drafod prynu goleuadau Nadolig newydd.

Croesawyd Mr Manka a Mr O'Hanlon o gwmni Blachere i'r Dref er mwyn trafod addasrwydd eu goleuadau i anghenion y Cyngor. Dangoswyd enghreifftiau o oleuadau'r cwmni o gatalog cyffredin y cwmni, ynghyd a chatalog o oleuadau gydag enghreifftiau wedi'u dylunio gan ddisgyblion ysgol. Cafwyd wybod bod 4 bl o warranty ar oleuadau'r cwmni ac opsiwn o brynu neu logi goleuadau.

Aethpwyd allan o'r swyddfa er mwyn gweld anghenion ganol y Dref, gyda'r canlynol yn cael eu rhoi i'r cwmni fel briff ar gyfer derbyn dyfynbris:

Goleuadau ar gyfer coed ar Sgwâr Diffwys x 6 coeden (lliw gwyn a lliw gwyn cynnes)

Goleuadau ar gyfer polion modern ar Sgwâr Diffwys x 4 polyn

Goleuadau ar gyfer polion modern gyferbyn a Sgwâr Diffwys x 2 polyn

Goleuadau ar gyfer polion traddodiadol ger y cyn-fanc HSBC x 2 polyn (3 os di'r sefyllfa ariannol yn caniatáu)

Goleuadau ar gyfer polion traddodiadol o Westy Tŷ Gorsaf at y Swyddfa Bost x 4 polyn (5 os di'r sefyllfa ariannol yn caniatáu)

Goleuadau ar gyfer y man golygfa x icicles ar ddau ochr yn unig

RGB10 i'r polion modern (tudalen 169) mewn amryw o liwiau e.e. porffor, leilac ...

PF207-L (tud 29), PL333 (tud 39) a PL024B (tud 43) i'r polion traddodiadol

I dderbyn amryw o ddyfynbrisiau, sef

1 - i brynu goleuadau

2 - llogi'r goleuadau x 3 bl

3 - pris gosod y goleuadau

Diolchwyd i gynrychiolwyr Blachere am eu hamser a'u hawgrymiadau.

Argymhelliad:

I drafod y dyfynbrisiau yng nghyfarfod arferol 13 Hydref 16

I wahodd swyddog o wasanaeth Goleuadau Stryd Cyngor Gwynedd i gyfarfod arferol Hydref 2016

I ystyried cynnal cystadleuaeth yn 2017 er mwyn dylunio goleuadau Nadolig ar gyfer ardaloedd eraill y Cyngor (cystadleuaeth drwy ysgolion dwi'n feddwl. Mae 'na bentwr o gatalogs yn y swyddfa er mwyn eu rhoi i'r ysgolion os da ni'n penderfynu derbyn yr argymhelliad)

PENDERFYNIAD: Bu i'r Cyngor holi am brisiau gan gwmnïau preifat ar gyfer gosod a dadosod y goleuadau Nadolig ond yn anffodus oherwydd trefn y dref mae'r goleuadau yn cael eu pŵer o'r colofnau goleuadau stryd a does dim hawl gan gwmnïau preifat i gysylltu i mewn i'r colofnau hyn. I dderbyn yr argymhellion ond i godi'r gyllideb i £13,000 fel bod goleuadau newydd yn cael eu gosod ar Heol yr Eglwys yn lle'r rhai sydd bellach wedi dirywio cymaint nad yw'n bosib eu trwsio.

Ail osodwyd y Rheolau Sefydlog ar gyfer gweddill o'r cyfarfod

9704/10/16 CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif C16/1061/03/LL
Ymgeisydd Mr G Thomas
Stiwio Sbensh
Bethel
Tanygrisiau
Cais i ddarparu teras/balcony, darparu drws ychwanegol a ffenestri to
Dim Gwrthwynebiad
2. Cais Cynllunio Rhif C16/1136/03/LL
Ymgeisydd South Snowdonia Search and Rescue Team
Tir ger Y Ddôl
Tanygrisiau
Blaenau Ffestiniog
Codi adeilad newydd ynghyd a chreu manau parcio cysylltiol ar gyfer Canolfan
Tîm Achub a Chwilio De Eryri
Dim Gwrthwynebiad
3. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/785A
Ymgeisydd Mr A Pritchard
Hanemoos
2 Bron Ddwryd
Ffestiniog
Gosod ffenestri to i'r edrychiad ffrynt, drychiad cefn a tho'r ystafell molchi
Dim Gwrthwynebiad
4. Cais Cynllunio Rhif C16/1162/03/LL
Enw'r Ymgeisydd C Grimshaw
Bryn Wennol
Cwm Teigl
Ffestiniog
Codi porth
Dim Gwrthwynebiad
5. Cais Cynllunio Rhif C16/1201/03/LL
Enw'r Ymgeisydd S & D L Grey
9 Ffordd Cwmbowydd
Blaenau Ffestiniog
Cais ar gyfer creu mynedfa gerbydol i iard gefn, codi estyniad ochr, newid to llechi
i do gwastad
Dim Gwrthwynebiad

6. Cais Cynllunio Rhif / C16/1201/03/LL
Enw'r Ymgeisydd I Moore
Y Graig
3\4 Commercial Square
Blaenau Ffestiniog
Newid defnydd siop a chaffi i gaffi a byncws gwyliau
Dim Gwrthwynebiad

PENDERFYNIAD: I benderfynu fel yr uchod ac i dderbyn y wybodaeth.

9705/10/16 PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Awdurdod wedi paratoi Cytundeb Cyflawni a gytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r amserlen ar gyfer ei baratoi, a sut bydd yr Awdurdod yn cynnwys partïon a diddordeb yn y broses. Gellir gweld copi o'r Cytundeb Cyflawni ar www.eryri-npa.gov.uk/planning/planning-policy/local-development-plan-revision

PENDERFYNIAD: Oherwydd yr angen i drafod hyn yn fanwl, i ofyn i Barc Cenedlaethol Eryri am estyniad ac i'w drafod ymhellach mewn Pwyllgor i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, nos Fercher 19^{eg} o Hydref 2016 am 7.00 o'r gloch.

9706/10/16 PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri - Galw am ddarpar safleoedd

Mae'r Awdurdod yn chwilio am nifer fach o safleoedd newydd ar gyfer tai o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae hwn yn gyfle i ddatblygwyr, tîrfeddianwyr, aelodau'r cyhoedd ac unrhyw bartïon eraill a diddordeb i gyflwyno safleoedd dichonol i'w hystyried ar gyfer eu datblygu yn y CDLL. Dylai awgrymiadau ar gyfer safleoedd datblygu gael eu danfon erbyn 4^{dd} Tachwedd 2016

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9707/10/16 PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri - Asesiad o Fannau Agored

Mae'r Awdurdod yn adolygu'r 'Papur Cefndir Mannau Agored'. Fel rhan o'r adolygiad hwn mae angen i'r Awdurdod gynnal archwiliad o'r tir a ddefnyddir ar gyfer dibenion hamdden a mwynderau cyhoeddus. Mae manau agored yn darparu swyddogaeth gymunedol bwysig ac mae angen i'r drefn cynllunio gydnabod y rôl hon yng ngoleuni newidiadau economaidd presennol ac yn y dyfodol.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9708/10/16 COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru

Cyhoeddwyd Adroddiad Cynigion Cychwynnol y Comisiwn ar 13 Medi 2016 ac mae ar gael ar wefan y Comisiwn - www.comffn-cymru.gov.uk. Dylid cyflwyno sylwadau erbyn 5^{ed} Rhagfyr 2016.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a'i drafod ymhellach yng nghyfarfod Tachwedd.

9709/10/16 IECHYD
Ni chafwyd unrhyw drafodaeth.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9710/10/16 GWEFAN Y CYNGOR TREF
Erbyn hyn mae cwmni arall yn datblygu gwefan i'r Cyngor Tref a gobeithir y bydd yn fyw cyn hir.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9711/10/16 PARTNERIAETH Y PARC
Ni chafwyd unrhyw wybodaeth.

9712/10/16 CAEAU CHWARAE
Bu i'r Cyngor dderbyn yr adroddiadau misol gan yr Archwiliwr Caeau Chwarae. Mae'r gwaith mewn llaw i drwsio'r niweidiau fel ac adroddwyd mis diwethaf.
Bu i'r Cyngor dderbyn prisiau ar gyfer gwneud gwaith dros dro ar y matiau diogelwch er mwyn rhoi digon o amser i gael prisiau ar gyfer gosod llawr diogelwch 'wet pour' newydd ar sawl un o'r caeau.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y prisiau ar gyfer gwaith ar y matiau diogelwch ond i awgrymu defnyddio plastig ac nid pren fel ymyl i'r matiau.

9713/10/16 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Bu i'r Cynghorydd Mandy Williams-Davies adrodd yn ôl yn dilyn ei phresenoldeb mewn sawl cyfarfod yn ddiweddar.

Dywedodd i gyfarfod cael ei gynnal i drafod syniadau ar gyfer defnydd i'r dyfodol o adeilad banc yr HSBC gyda sawl syniad wedi ei roi ymlaen i'w hystyried.

Bu hefyd mewn cyfarfod yn Ysgol y Moelwyn i drafod S4C.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9714/10/16 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD
Ni chafwyd unrhyw newyddion.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9716/10/16 RHEILFFORDD FFESTINIOG
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 9.02y.h.

CADEIRYDD

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 10^{fed} TACHWEDD 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.**

**CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 10^{fed} TACHWEDD 2016
AR YR 3^{ydd} TACHWEDD 2016**